**CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR**

**Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar Fawrth 7fed o Ebrill**

**yn Neuadd Coedybryn**

**Yn bresennol** Cyng. Sharon Thomas (Cadeirydd); Cyng. Emyr Jones; Cyng. Teifi Evans;
Cyng. Sian Williams; Cyng. Ceri Jones;

**Clerc** Helen Horscroft

**1 . Ymddiheuriadau**

Cyng Llyr Evans; Cyng. Rob Jones; Cyng. Mark Davies; Cyng. Maldwyn Lewis; Cyng. Carol Davies; Cyng. Osian Davies

**2. Datgan Diddordeb**

Cyng. Teifi Evans. Wedi llanw ffurflen pwrpasol .

**3. Cofnodion y Cyfarfod diwethaf**

**3.1** Cafodd pawb gopi o Gofnodion mis Mawrth . Awgrymodd Cyng. Sian Williams bydde defnyddio Cysyll yn help i'r Clerc gyda gramadeg y cofnodion.

**3.2** Cynnigodd Cyng. Sian Williams bod y cofnodion yn gywir ac eiliwyd gan Cyng. Ceri Jones.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**4.1** Mae'r Clerc wedi cwblhau ffurflenni 'Pension Regulator'.

**5. Cyrsiau**

**5.1** Helen wedi cwblhau cwrs 'Code of Conduct' ar y 5ed o Fawrth.

**6. Materion y Cynghorydd Sir**

Dim – Cyng. Maldwyn Lewis yn absennol o'r cyfarfod.

**7. Gohebiaeth**

**7.1** Cynllunio – Fferm Troedyraur. Gwnaeth Cyng. Teifi Evans adael yr ystafell cyn y trafodaeth.

Pawb yn gytun gyda Adran y Priffyrdd ynglyn a gofynion y Draeniad a Dwr Wyneb.

**7.3** Hywel BCCIT – Diogelwch digidol.

**7.4** Un Llais Cymru – nodiadau hyfforddiant Cod Ymddygiad.

7.5 Un Llais Cymru – E bwletin rhif 19.

7.6 Un Llais Cymru – Lawnsio ei maniffesto ar gyfer y sector Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru.

7.7 Gwybodaeth SLCC – Society of Local Council Clerks.

7.8 Un Llais Cymru – Cyfarfod Blasu a Dysgu nesaf – Dydd Mawrth 24ain Fawrth.

7.9 Un Llais Cymru – Cynhadledd Cyllido Capeli ac Eglwysi – prynhawn 25.03.26.

7.10 Un Llais Cymru – Hyfforddiant ar yr Awdit.

7.11 Ceredigion – Panel Arfarnu Cymru/Canfyddiadau Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus.

7.12 Un Llais Cymru – Newyddlen Cyllid.

7.13 Awdit Cymru – Hysbysiad archwilio sylfaenol (2024-2025).

7.14 Un Llais Cymru – E bwletin rhif 20.

7.15 West Wales Climate Coalition – Hystyngau Hustings, yn Neuadd y Dref, Aberteifi am 6.30yh 16.04.26.

7.16 Un Llais Cymru – Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ceredigion 09.04.26am 7 o'r gloch yn Neuadd Goffa Cei Newydd.

7.17 Swyddog Canlyniadau Etholaeth Ceredigion Penfro – Hysbysiad o Etholiad.

7.18 Awdit Cymru – cynnwys y ffeiliau cywir.

7.19 Sioe Tivyside – ffurflen grant.

7.20 Un Llais Cymru – Gwobrau Cenedlaethol Un Llais Cymru 2026 – Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 30 Ebrill 2026.

7.21 Cofnodion Mawrth 2026.

7.22 AGENDA Cyfarfod mis Ebrill .

7.23 Cynllunio – A260130- Arwynfa , Croeslan.- Pawb yn hapus dim ond bod cynllawiau'r Cyngor yn cael ei ddilyn.

7.23 Cyngor Sir Ceredigion – Praesept 2026-2027 – taliadau.

7.24 Un Llais Cymru – E bwletin rhif 21.

**8. Cyllid**

**8.1** Mi wnaeth Cyng. Ceri Jones a Cyng. Emyr Jones arwyddo sieciau i :

Clerc - £270.54;  HMRC - £67.60;  Un Llais Cymru - £299 (Aelodaeth);  HUTS £100; Gwariant y Clerc - £103.86 (Mai 2025-Mawrth 2026); Un Llais Cymru - £42;  Trosgwyddo £5000 or cyfrif cadw ir cyfrif cyfredol.

**9. Cyfansoddiad**

**9.1** Aeth pawb drwy'r cyfansoddiad presennol ac mae rhai newidiadau yn cael ei ychwanegu.

**10 Awdit**

10.1 Bydd y Cyng. Sharon Thomas a'r clerc yn cwrdd i ddechre trefnu'r awdit.

**11 Blodau**

**11.1** Cyng. Sian Williams i fynd i Trefhedyn i archebu'r blodau.

**11.2** Pawb i glirio'r potiau yn ei pentrefi.

**12 Materion Ardal**

12.1 **Coedybryn –** Mae rhywun wedi bwrw clawdd – llawer o gerrig ar yr hewl. Eisiau rhoi gwbod i'r cyngor – What 3 Words – paces.sedated.unable

12.2 **Penrhiwpal –** Mae'r coed ar bwys y garej wedi cael ei torri.

12.3 **Rhydlewis –** Buodd tan ar hewl i Frynhoffnant. Aeth cerbyd ar dan. Ni chafodd neb niwed. Roedd yr hewl ar gau am peth amser er mwyn rhoi tarmac newydd lawr.

12.4 – Mae tyllau ar bwys garej Ddol wedi cael ei llenwi.

12.5 **Brongest –** Braf gweld bod tarmac newydd ar yr hewl i Bwllgwair.

12.6 **Croeslan –** dim materion.

12.7 **Maesllyn** – dim materion.

**13. Cyfarfod Nesaf**

13.1 Cynhelir cyfarfod nesaf yn Neuadd Rhydlewis, nos Fawrth 5ed o Fai 2026 am 7.30yh. Bydd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn cael ei gynnal hefyd.

Cytunwyd fod y cofnodion yma'n gywir.

05.05.26

-------------------------------------------------------- --------------------------------------------------

Arwyddwyd ( y Cadeirydd ) Dyddiad